1907-2007 Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Datganiad Newyddion

Asiantaethau'n cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol i amddiffyn plant sy'n wynebu risg

24 Mai 2007

O ganlyniad i ymchwiliad Victoria Climbie, roedd gofyn i bob asiantaeth sy'n gweithio gyda phlant wneud trefniadau partneriaeth mwy effeithiol. Mae adroddiad a gyhoeddir heddiw gan Estyn, yr arolygiaeth addysg a hyfforddiant, yn amlygu'r diffyg gweithdrefnau cyson ar draws Cymru i olrhain plant sy'n diflannu o addysg.

Dywed yr adroddiad mai plant sy'n agored i niwed sy'n wynebu'r risg mwyaf o fynd ar goll. Maent nid yn unig yn wynebu risg yn addysgol o bosibl, yn yr ystyr nad ydynt yn cael yr addysg y mae plant eraill o'r un oedran yn ei chael, ond mae'n bosibl bod risg hefyd i'w diogelwch a'u lles.

Er bod yr adroddiad yn cadarnhau bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru swyddog wedi'i enwi sy'n cymryd cyfrifoldeb am blant sydd wedi diflannu o addysg, mae effeithiolrwydd y gweithdrefnau a gaiff eu rhoi ar waith ganddynt yn amrywio. Yr awdurdodau lleol sydd â'r gweithdrefnau mwyaf effeithiol yw'r rhai sy'n rhagweithiol wrth edrych am blant y maent yn amau eu bod ar goll o addysg, gan sicrhau bod digon o adnoddau i wneud hyn. Mae eu swyddogion yn ymweld â chartrefi'r plant y tybir eu bod yn wynebu risg o ddiflannu o addysg, yn datblygu gweithdrefnau effeithiol ar olrhain disgyblion sy'n symud allan o'r ardal, neu i mewn i'r ardal, ac yn gweithio'n agos gyda phartneriaid eraill.

Mae adroddiad Estyn yn galw am weithio'n agosach rhwng gweithwyr addysg, y gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a gweithwyr iechyd i nodi plant nad ydynt yn mynd i'r ysgol neu i ddarpariaeth addysgol gymeradwy arall.

Dywed Prif Arolygydd EM dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Susan Lewis: "Nid oes gweithdrefnau na phrosesau cyffredin i adnabod y plant sy'n diflannu o addysg ac i roi adnoddau yn eu lle i'w cefnogi. Rhaid talu sylw arbennig i blant sy'n agored i niwed, sy'n symud i mewn i awdurdod lleol neu allan ohono."

"Pan fydd asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol mae'n llai tebygol y gall disgyblion fynd ar goll o addysg ac mae'n fwy tebygol bod y rhai nad ydynt yn mynd i'r ysgol yn cael eu canfod yn fuan." Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ceisio cynnal data cywir ar gyfer y grŵp hwn o ddisgyblion sy'n agored i niwed, mae gwaith Estyn yn canfod nad yw hwn yn aml yn cael ei rannu rhwng adrannau awdurdodau lleol neu gydag asiantaethau eraill. Mae'n bosibl y bydd rhanddeiliaid gwahanol yn olrhain ac yn monitro llawer o'r un disgyblion am resymau gwahanol.

Mae adroddiad Estyn yn argymell bod pob awdurdod lleol yn sicrhau bod swyddog wedi'i enwi yn gyfrifol am gynnal cronfa ddata o'r holl ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu mewn mannau heblaw am yn yr ysgol a'r rhai sydd ar goll o addysg.

Mae'r adroddiad yn datgan y dylai awdurdodau lleol hefyd fod yn fwy trylwyr o ran monitro disgyblion mewn cartrefi gofal annibynnol sy'n cael eu cofrestru fel ysgolion. Mae arolygiadau Estyn yn adrodd nad yw llawer o'r disgyblion hyn yn cael y 25 awr yr wythnos o addysg y mae ganddynt hawl iddynt a phrin iawn yw'r gwaith o fonitro eu cynnydd.

Mae ychydig o ddryswch am ba fathau o ddarpariaeth y mae'n rhaid eu cofrestru ac mae'r adroddiad yn argymell y dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru roi arweiniad clir i awdurdodau lleol ar y mater hwn. Er enghraifft, mae nifer fawr o unedau cyfeirio disgyblion heb eu cofrestru yng Nghymru o hyd er gwaethaf yr argymhellion a wnaed gan Estyn yn 2004. Lle caiff disgyblion eu haddysgu mewn unedau sydd heb eu cofrestru, mae monitro'r unigolion yn llai sicr.

Ychydig iawn o lais sydd gan awdurdodau lleol yn addysg y plant hynny y mae eu rhieni'n dewis eu haddysgu gartref ond mae'r rhan fwyaf yn monitro'u cynnydd. Fodd bynnag, ychydig neu ddim cyswllt sydd gan rai awdurdodau lleol gyda rhieni'r disgyblion hynny ac ni allant ddweud, gydag unrhyw sicrwydd, os ydynt yn cael addysg briodol.

Mewn ambell awdurdod lleol mae tystiolaeth gref ar lafar bod nifer fach o ysgolion wedi annog rhieni disgyblion trafferthus i ddewis 'addysg cartref' er mwyn osgoi gwaharddiad swyddogol. Nid oes sail swyddogol am y math hwn o waharddaid, dywed yr adroddiad, a dylai'r awdurdod lleol herio'r arfer hon.

DIWEDD

Nodiadau i'r Golygydd:

- Estyn yw swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Nod Estyn yw codi safonau ac ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru drwy arolygu a chynghori, i gefnogi'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

- Comisiynwyd adroddiad Estyn 'Arfer addysg leol wrth fonitro lleoliad disgyblion y cânt eu haddysgu y tu allan i'r lleoliad ysgol a'r rheiny sydd ar goll o addysg' gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac fe'i cyhoeddir yn www.estyn.gov.uk

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:
Claire Russell
Tîm Cyfathrebu, y Cyfryngau a Marchnata
Estyn
cyfathrebu@estyn.gsi.gov.uk
02920 446464